




## Afalau ar werth

Mae disgyblion blwyddyn 5 wedi bod yn brysur yn casglu afalau coginio o'r Ardd Natur, a byddant ar werth wrth y giât heddiw ar ddiwedd y dydd. Bydd rhwng 8 a 10 afal mewn bag, am bris o £1. Bargen!
Cadwch lygad mâs amdanyn nhw.

## *Apples on sale*

*Year 5 pupils have been busy collecting cooking apples from the Nature Garden, and they will be on sale by the gate today at the end of the day. There will be between 8 and 10 apples in each bag, priced at £1. Bargain!*
*Keep an eye out for them.*

---

## Archifo postiadau Instagram

Rhannwyd llythyr drwy e-bost â holl rieni'r ysgol yn ystod yr wythnos yn egluro sefyllfa adolygu'r ysgol o brosesau rhannu delweddau y plant a'r ysgol. Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi archifo'r postiadau, yn hytrach na'u dileu. Mi sylwch ein bod yn parhau i bostio lluniau a newyddion, ond mewn dull ychydig yn wahanol. Byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth gyda chi yn ystod yr wythnosau nesaf.

## *Archiving our Instagram posts*

*A letter was shared by email with all parents during the week, explaining that the school is currently reviewing its processes for sharing images of the children and the school. During this period, we have archived the posts rather than deleting them. You will notice that we are continuing to share photos and news, but in a slightly different way. We will share more information with you over the coming weeks.*

---



## Sgwtera

Ry'n ni'n ffodus o fod wedi medru trefnu aelod o'r 'Walk, Wheel, Cycles Trust Cymru' i ymweld â'r ysgol ddydd Mercher ac Iau nesaf. Bydd yn siarad gyda phawb yn y gwasanaeth fore Mercher, yna sesiwn sgwtera ar yr iard i:
DYDD MERCHER : Meithrin, Derbyn, Bl.1a2
DYDD IAU : Bl.3,4,5a6
Dewch â'ch sgwteri os ydych yn dymuno.

## *Scootering*

*We're fortunate to have been able to arrange for a member of 'Walk, Wheel, Cycle Trust Cymru' to visit the school next Wednesday and Thursday. They will speak during Wednesday morning's assembly, followed by scooter sessions on the yard for:*
*WEDNESDAY: Nursery, Reception, Years1&2*
*THURSDAY: Years 3, 4, 5 & 6*
*Please bring your scooters if you wish.*

---




## Gemwaith

Er mwyn cadw pawb yn ddiogel, gofynnwn i ddisgyblion gadw gemwaith yn syml ac yn addas ar gyfer amgylchedd ysgol. Dylai clustdlysau fod yn **stydiau bach a syml yn unig**, a dylid gwisgo unrhyw fwclis neu gadwyni **o dan y dillad**. Dylai modrwyau a breichledau hefyd fod yn syml ac ni ddylent amharu ar allu'r plentyn i ysgrifennu, paentio, chwarae na chymryd rhan mewn gweithgareddau'r ysgol. Am resymau iechyd a diogelwch, efallai y bydd angen tynnu gemwaith ar gyfer gweithgareddau penodol, yn enwedig Addysg Gorfforol a chwaraeon.

## *Jewellery*

*To keep everyone safe, we ask pupils to keep jewellery simple and appropriate for a school environment. Earrings should be small, simple studs only, and any necklaces or chains should be worn under clothing. Rings and bracelets should also be simple and should not interfere with a child's ability to write, paint, play or take part in school activities. For health and safety reasons, jewellery may need to be removed for certain activities, particularly PE and sports.*



**09/10/2026**

## Diwrnod Rhyngwladol

Bydd ein Diwrnod Rhyngwladol yn cael ei gynnal **ddydd Gwener, Hydref 9fed** – gwahoddir disgyblion i ddod i'r ysgol mewn gwisgoedd sy'n cynrychioli'r wlad y byddant yn eu hastudio:

| | |
|---|---|
| Meithrin | Cymru |
| Derbyn | Yr Alban |
| Blwyddyn 1a2 | Yr Eidal |
| Blwyddyn 3a4 | Ffrainc |
| Blwyddyn 5 | Yr Ariannin |
| Blwyddyn 6 | India |

## *International Day*

*International Day will be held on Friday, October 9th - pupils are invited to come to school in costumes that represent the country they will be learning about:*

| | |
|---|---|
| Nursery | Wales |
| Reception | Scotland |
| Years 1&2 | Italy |
| Years 3&4 | France |
| Year 5 | Argentina |
| Year 6 | India |

## Ymaelodi gyda'r Urdd

Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd rydym yn annog disgyblion i ymaelodi gyda'r Urdd. Medrwch wneud hynny drwy fynd i Ymuno | Urdd Gobaith Cymru

Trwy fod yn aelod byddwch yn medru mynychu Clwb yr Urdd (Bl.1-6) a chymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon ac eisteddfodol yn ystod y flwyddyn.

## *Urdd Membership*

*At the start of a new school year we encourage pupils to join the Urdd. You can do so by going to* Join | Urdd Gobaith Cymru

*By being a member you will be able to attend Clwb yr Urdd (Yrs.1-6) and take part in sports and eisteddfod competitions during the year.*

## Digwyddiadau a llwyddiannau


Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram




## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the* *Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

### Dyddiadau pwysig Tymor yr hydref:

- Tynnu lluniau unigol a theuluoedd : Hydref 6ed
- Cyfarfod Blynyddol y G.Rh.A : Hydref 6ed
- Diwrnod Rhyngwladol : Hydref 9fed
- Nosweithiau Agored : Hydref 19eg ac 20fed
- Diwrnod olaf yr hanner tymor hwn : Hydref 23ain
- Cyngerdd Nadolig : Rhagfyr 10fed

### *Autumn term important dates:*

- *Individual and family photographs : October 6th*
- *PTA Annual General Meeting : October 6th*
- *International Day : October 9th*
- *Open Evenings : October 19th and 20th*
- *Last day of this half term : October 23rd*
- *Christmas concert : December 10th*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth /** ***Headteacher***
**18/09/2026**
🖰 [www.ysgolgymraeg.cymru](www.ysgolgymraeg.cymru)











| DAY DIWRNOD | TIME AMSER | START DATE DYDDIAD CYCHWYN | END DATE DYDDIAD GORFFEN |
|---|---|---|---|
| Monday Dydd Llun | 09:30-10:30 | 28/09/26 | 23/11/26 |
| Monday Dydd Llun | 13:30-14:30 | 28/09/26 | 23/11/26 |
| Monday Dydd Llun | 20:00-21:00 | 28/09/26 | 23/11/26 |
| Tuesday Dydd Mawrth | 09:30-10:30 | 29/09/26 | 24/11/26 |
| Tuesday Dydd Mawrth | 18:30-19:30 | 29/09/26 | 24/11/26 |
| Wednesday Dydd Mercher | 10:00-11:00 | 30/09/26 | 25/11/26 |
| Wednesday Dydd Mercher | 18:00-19:00 | 30/09/26 | 25/11/26 |
| Wednesday Dydd Mercher | 20:00-21:00 | 30/09/26 | 25/11/26 |
| Thursday Dydd Iau | 09:30-10:30 | 01/10/26 | 26/11/26 |




| DAY DIWRNOD | TIME AMSER | START DATE DYDDIAD CYCHWYN | END DATE DYDDIAD GORFFEN |
|---|---|---|---|
| Monday Dydd Llun | 09:30-10:30 | 28/09/26 | 23/11/26 |
| Monday Dydd Llun | 11:30-12:30 | 28/09/26 | 23/11/26 |
| Tuesday Dydd Mawrth | 18:00-19:00 | 29/09/26 | 24/11/26 |
| Tuesday Dydd Mawrth | 19:00-20:00 | 29/09/26 | 24/11/26 |
| Tuesday Dydd Mawrth | 19:30-20:30 | 29/09/26 | 24/11/26 |
| Wednesday Dydd Mercher | 10:30-11:30 | 30/09/26 | 25/11/26 |
| Wednesday Dydd Mercher | 19:30-20:30 | 30/09/26 | 25/11/26 |
| Thursday Dydd Iau | 10:00-11:00 | 01/10/26 | 26/11/26 |
| Thursday Dydd Iau | 18:00-19:00 | 01/10/26 | 26/11/26 |
| Friday Dydd Gwener | 09:00-10:00 | 02/10/26 | 27/11/26 |


Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd
Parenting and Family Support
GRŴP RHIENI IFANC
NYTH NI, CAMPWS LLWYN YR EOS
PENPARCAU
POB WYTHNOS - AMSER TYMOR YN UNIG
Dydd Iau
11.00yb - 12.30yp
Ar gyfer rhieni 26 oed ac iau gyda phlant 0-4 oed
Mae croeso hefyd i famau a thadau ifanc sy'n disgwyl babi.
Cyfle i rhieni ifanc a'u plant ddod ynghyd, mewn amgylchedd cyfeillgar ac ymlaciol, lle mae modd iddynt gymdeithasu a chael ychydig o hwyl!
DOES DIM ANGEN ARCHEBU LLE
Jo Alice - 07891 321 778
Dwynwen- 07929 752 824
Nyth Ni, Campws Llwyn yr Eos, Penparcau, Aberystwyth. SY23 1SH.
What3words///cysonaf.egni.yfwn
DARPARU CINIO
Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Dechrau'n Deg Flying Start


Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd
Parenting and Family Support
YOUNG PARENTS GROUP
NYTH NI, LLWYN YR EOS CAMPUS
PENPARCAU
WEEKLY GROUP - TERM TIME ONLY
Thursdays
11.00am - 12.30pm
For parents under 26 with children 0-4 years
Expectant parents are also welcome.
A chance for young parents and their children to come together, in a friendly and relaxed environment where they can socialise and have fun!
NO NEED TO BOOK
Jo Alice - 07891 321 778
Dwynwen- 07929 752 824
Nyth Ni, Llwyn yr Eos Campus, Penparcau, Aberystwyth. SY23 1SH
What3words///gain.note.betraying
LUNCH PROVIDED
Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Dechrau'n Deg Flying Start


PETER PAN
SCAN HERE FOR TICKETS!
WIZE PRODUCTIONS
THE PANTO THAT NEVER GETS OLD!
PARC GWYLIAU CLARACH BAY HOLIDAY PARK
28ain Dachwedd / Saturday 28th November
Tocynnau £8 yr un, plant o dan 3 yn mynd am ddim!
Tickets £8 each, children 3 years and under go free!
1YP / 1PM